Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Helen Finlayson

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda byrddau iechyd lleol

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 109)

Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Arpan Guha, Cyfarwyddwr Meddygol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Steve Moore, Prif Weithredwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Andrew Carruthers, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Paul Mears, Prif Weithredwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Yr Athro Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Briff ymchwil

Papur 1 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Papur 2 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Papur 3 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Papur 4 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Papur 5 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Papur 6 – Bwrdd Iechyd Addygsu Powys

Papur 7 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Egwyl (10.30–10.45)

3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda byrddau iechyd lleol (parhad)

(10.45–11.30)

Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigaeth – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Arpan Guha, Cyfarwyddwr Meddygol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Steve Moore, Prif Weithredwr – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Andrew Carruthers, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Paul Mears, Prif Weithredwr – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Yr Athro Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

4 Papurau i'w nodi

(11.30)

4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch gwaith dilynol ar effaith COVID-19 ar chwaraeon

(Tudalennau 110 – 119)

4.2 Llythyr at y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol

(Tudalennau 120 – 121)

4.3 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol

(Tudalennau 122 - 123)

4.4 Llythyr at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 27 Ionawr 2021

(Tudalennau 124 - 125)

4.5 Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 27 Ionawr 2021

(Tudalennau 126 - 134)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.30)

6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(11.30-11.40)

7 Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 3 - Effaith ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl: Trafod yr adroddiad drafft

(11.40-12.10) (Tudalennau 135 - 192)

8 Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

(12.10-12.15) (Tudalennau 193 - 203)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Fersiwn 1.0 Cymeradwywyd

Ymateb BIPBC i Gais am Wybodaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Effeithiau'r Pandemig ar Amseroedd Aros

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i effaith Covid-19. Yn gyffredin â Byrddau Iechyd eraill ledled Cymru, mae BIPBC yn wynebu ystod o ffactorau sy'n achosi pwysau o ganlyniad i'r pandemig, yn cynnwys amseroedd aros. Mae'r prif ffactorau sy'n achosi pwysau wedi'u hamlinellu isod, mewn ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor.

1. **Beth yw'r prif feysydd lle bo pwysau, a pha gynlluniau sydd gennych ar waith i fynd i'r afael â nhw?**

Gofal wedi'i Gynllunio

Mae'r holl weithgarwch rheolaidd i gleifion allanol a chleifion mewnol sydd wedi'u nodi fel rhai â haenau risg P3/4 wedi'i ohirio. Mae hyn yn golygu bod nifer sylweddol o gleifion bellach yn aros dros 36 wythnos a thros 52 wythnos am eu triniaeth. O 7 Chwefror, roedd 51,479 o gleifion yn aros dros 36 wythnos ac mae 36,000 o'r nifer hwnnw yn aros dros 52 wythnos. Y prif arbenigeddau lle mae cleifion yn aros am driniaeth yw Orthopaedeg, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Wroleg ac Offthalmoleg.

Fel rhan o'n gofyniad i gynyddu nifer gwelyau'r Uned Gofal Dwys (ICU) ar draws y safleoedd Llym yng ngogledd Cymru, mae nifer o staff clinigol a fyddai wedi bod yn rhoi cymorth clinigol i leihau amseroedd aros wedi'u hadleoli gan felly leihau ein capasiti i ddarparu llawdriniaethau fel mater o drefn.

Yn ystod y pandemig, mae trin canser a chyflyrau sy'n bygwth bywyd wedi parhau fel rhan o'r hyn sy'n cael ei gategoreiddio fel 'gwasanaethau hanfodol'. Mae 'unwaith i Ogledd Cymru' wedi'i mabwysiadu, gan symud gwasanaethau ar draws y rhanbarth i sicrhau cynaliadwyedd pan fo ymchwydd mewn achosion Covid-19.

Mae ymagwedd ffynonellau mewnol (is-gontractio gwasanaethau i ddarparwr allanol) wedi'i mabwysiadu ar benwythnosau ym maes Offthalmoleg ar ddau o'r prif safleoedd ysbyty yng ngogledd Cymru a bwriedir ymestyn y model gofal hwn i'r arbenigeddau eraill yn ystod Chwefror, yn amodol ar gyfyngiadau Covid-19. Credir y bydd angen i'r ymagwedd hon, gan ddefnyddio model gweithlu cymysg, barhau am y 2-3 blynedd nesaf er mwyn lleihau ôl-groniadau i lefelau fel yr oeddent cyn Covid-19.

Arbenigeddau Meddygol

Mae heriau hirsefydledig yn y gweithlu meddygol yn gwaethygu pwysau ar y gwasanaeth yr ydym yn ei wynebu o ganlyniad i bandemig Covid-19 mewn gwasanaethau fel Endocrinoleg, Rhiwmatoleg a Dermatoleg. Mae'r heriau hyn yn

cael eu datrys trwy benodi staff locwm, lle bo'n glinigol briodol gwneud hynny, trosi swyddi gradd staff yn Gymdeithion Meddygol, a chyflogi nyrsys uchel iawn i ymgymryd â lefel uwch o waith clinigol er mwyn rhoi cymorth i'r tîm o feddygon ymgynghorol. Mae'r ymagweddau hyn wedi bod yn llwyddiannus ac rydym yn awyddus i fynd â'r ffyrdd newydd o weithio i'r amgylchedd ar ôl Covid. Mae ymateb y pandemig wedi golygu hefyd y bu angen i glinigwyr o'r arbenigeddau meddygol roi ymrwymiad mwy i rota meddygaeth gyffredinol, i rhannu’r llwyth gwaith. Ni fydd y pwysau hwn yn lleihau hyd nes bo modd dychwelyd at y rota ar alwad nad yw'n ymwneud â Covid-19, ac nid oes unrhyw derfyn amser wedi'i gadarnhau yn hyn o beth ar hyn o bryd.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (CYP)

Er mwyn mynd i'r afael â phwysau ar wasanaethau i ddiogelu plant a'u lles emosiynol, ac i sicrhau bod modd i deuluoedd fanteisio ar gymorth a gofal iechyd yn brydlon, nid oes unrhyw staff CYP wedi'u hadleoli yn ystod yr ail don hon. Mae hyn wedi caniatáu i CYP gynnal gwasanaethau cymunedol a chyswllt i blant a'u teuluoedd.

O ran Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), mae heriau'n bodoli o ran cyfeiriadau cynyddol ac ôl-groniad o asesiadau ac ymyriadau iechyd meddwl. Mae hyn wedi'i gymhlethu gan nifer y swyddi gwag ac absenoldeb staff. Mae'r cynllun i ddelio â hyn yn cynnwys comisiynu darparwyr allanol a rhoi prosesau recriwtio ar waith.

Ym maes Niwroddatblygiad (ND), bu'n rhaid i asesiadau arsylwadol wyneb yn wyneb yn cynnwys plant sy'n aros am ddiagnosis ND gael eu gohirio'n gynharach yn y pandemig, ond mae'r rhain wedi ailddechrau'n ddiweddar i rai plant. Y bwriad yw ailddechrau asesiadau cychwynnol ar gyfer yr holl blant yn ystod chwarter cyntaf 2021-22. Mae rhoi cymorth ar ôl diagnosis i blant ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) yn parhau i fod yn her. Mae prosesau gweithlu a chynllunio gwasanaethau'n mynd i'r afael â hyn er mwyn alinio'r gwasanaeth yn well i anghenion plant a phobl ifanc. Bydd comisiynu darparwyr allanol ar y cyd â CAMHS i roi cymorth i blant sydd ag anghenion niwroddatblygiadol a phryder hefyd yn gwella amseroedd aros.

Therapïau

Bu ôl-groniad o weithgarwch rheolaidd newydd mewn Adrannau Cleifion Allanol (OPD) ar draws yr holl wasanaethau therapi, gyda phwysau ar Ffisiotherapi, yn benodol o ganlyniad i Covid. Mae adnoddau ychwanegol, gan gynnwys staff locwm, wedi cael eu caffael i ddelio â'r ôl-groniad hwn, ond mae dod o hyd i staff locwm wedi bod yn anodd ac mae heriau o ran y mannau ffisegol ar gyfer clinigau sydd ar gael oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol. Mae nifer o gleifion sy'n cael cynnig apwyntiadau rhithiol, yn dewis aros am apwyntiadau wyneb yn wyneb, sy'n cynyddu amseroedd aros i'r unigolion hynny.

Yn ogystal, mae ôl-groniadau o ran achosion dilynol mewn gwasanaethau fel Podiatreg a Therapi Iaith a Lleferydd yn benodol, ac amseroedd aros hwy ar y cyfan ar gyfer gwasanaethau nad oes rhaid adrodd arnynt fel orthotigau. Mae camau a

gymerwyd i fynd i'r afael â'r pwysau hwn yn cynnwys gofyniad i bob gwasanaeth fod â chynllun adfer ar waith, gan ganolbwyntio ar wella'r sefyllfa i ddychwelyd at yr amser aros o 14 wythnos. Bydd y terfyn amser i gyflawni hyn yn ymestyn at 2021-22.

Fel yn achos llawer o wasanaethau, mae capasiti ffisegol yn gyfyngiad sylweddol. Mae mannau clinigol ac adsefydlu wedi cael eu colli fel rhan o gynlluniau ymchwydd neu oherwydd anghenion defnyddwyr eraill fel gofal cychwynnol, yn ogystal ag effeithiau rhoi gofynion ymbellhau cymdeithasol ar waith. Mae mannau swyddfa i gynnal timau clinigol mewn ffordd lle bo pellter cymdeithasol diogel hefyd yn gyfyngedig.

Mae pwysau cynyddol ar wasanaethau nad ydynt yn rhai Adrannau Cleifion Allanol, er enghraifft, oherwydd adleoli staff i weithio mewn Ysbytai Enfys dros dro neu ar y rhaglen frechu, wedi cael sgil-effaith o ran pwysau ar wasanaethau Adrannau Cleifion Allanol.

Oncoleg a Haematoleg

Mae'r ddau faes yn wynebu pwysau oherwydd salwch yn ymwneud â recriwtio meddygon ymgynghorol a salwch hirdymor. Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwysau hwn trwy recriwtio meddyg locwm gradd ganol mewn haematoleg, oncolegydd clinigol ymgynghorol, a chynlluniau i gyflwyno radiograffwyr ymgynghorol/therapi arfer uwch sy'n gallu gweithio ar lefel uwch i roi cymorth i'r tîm o feddygon ymgynghorol mewn oncoleg glinigol.

Mae capasiti ffisegol yn gyfyngiad sylweddol i wasanaethau oncoleg a haematoleg, ac mae cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol yn effeithio ar fannau clinigol a swyddfeydd.

Endosgopi

Mae amseroedd aros endosgopi wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. Yn y lle cyntaf, cafodd gwasanaethau eu gohirio yn ystod y don gyntaf yn unol ag arweiniad cenedlaethol. Ers i'r gwasanaeth ailddechrau, mae'r cyfnod segur rhwng achosion oherwydd gofynion rheoli heintiau ychwanegol wedi haneru cynhyrchiant. Mae adleoli staff i gynorthwyo gwasanaethau resbiradol, wedi creu heriau hefyd o ran cynnal capasiti yn nhermau staff meddygol a nyrsio. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y capasiti sydd ar gael, mae'r gwasanaeth wedi rhoi newidiadau i'w ffyrdd o weithio ar waith, gan gynnwys

- mabwysiadu system waith ar draws PBC cyfan, i leddfu amseroedd aros gwahaniaethol sy'n deillio o lefelau amrywiol o bwysau ar safleoedd gwahanol
- cyflwyno ffynonellau mewnol sydd wedi caniatáu model gwaith saith niwrnod.
- cyflwyno profion imiwnogemegol ymgarthol (FIT) i ganiatáu haenu risg cleifion yn fwy manwl-gywir.

Radioleg, Niwroffisioleg ac Awdioleg

Mae pwysau ar amseroedd aros diagnostig am radioleg, niwroffisioleg ac awdioleg. Er mwyn delio â hyn, mae cynlluniau clirio ôl-groniad wedi cael eu datblygu ac mae cynllun ychwanegol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2021-22.

2. **Sut fyddwch yn blaenoriaethu cyflwyno gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID er mwyn targedu lleihad mewn amseroedd aros?**

Gofal wedi'i gynllunio ymlaen llaw

Caiff blaenoriaethu o ran gweithgarwch nad yw'n ymwneud â Covid-19 ei gwblhau trwy'r rhestr targedu cychwynnol ac mae'n canfod arbenigeddau sydd â'r amseroedd aros hiraf (fel y'i rhestrir yng nghwestiwn 1 uchod). Argaeledd capasiti theatrau ac adrannau cleifion allanol yw'r ffactor cyfyngol, a pha un ai achosion dydd ynteu ofal cleifion mewnol yw'r gweithgarwch sydd ei angen - yn achos yr un cyntaf, mae'n haws dod o hyd i gapasiti pan fo ymchwydd mewn achosion Covid-19.

Arbenigeddau Meddygol

Caiff cleifion canser, a chleifion eraill y tybir eu bod yn rhai brys, eu gweld ar hyn o bryd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a PBC. Fodd bynnag, mae rhai rhestrau aros brys yn cynyddu o ganlyniad i'r lleihad mewn capasiti clinigau oherwydd cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol ar gyfer Covid-19 a salwch hirdymor staff. Mae gwaith yn parhau i fynd ar drywydd dilysu rhestrau aros, gyda'r bwriad o leihau nifer y cleifion y mae eu hapwyntiadau dilynol yn hwyr.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae rhai amseroedd aros cynyddol yn bodoli yn CAMHS, ac mewn Asesiadau Niwroddatblygiadol (bu ychydig o gynnydd mewn amseroedd aros ar gyfer gofal paediatrig llym, ond mae'r rhain yn parhau i fod o fewn yr amser targed o gryn dipyn). Mae cleifion mewn gwasanaethau sydd wedi'u categoreiddio fel 'gwasanaethau hanfodol' yn cael eu gweld, gyda blaenoriaethu clinigol ar waith a defnyddio ffyrdd arloesol o gynnig gofal, fel clinigau rhithiol. Mae'r rhain yn cynorthwyo'r lleihad mewn amseroedd aros ac maent wedi bod yn llwyddiannus mewn clinigau paediatrig llym a chymunedol lle nad oes angen i gleifion gael eu gweld wyneb yn wyneb.
Mae dilysu rhestrau aros dilynol yn parhau yn yr holl wasanaethau i blant gyda'r bwriad o sicrhau lleihad o ran y rheiny sy'n aros 100% y tu hwnt i'w dyddiad targed.

Therapïau

Mae cleifion therapïau'n cael eu gweld yn unol â'r fframwaith gwasanaethau hanfodol. Mae blaenoriaethu clinigol o ran achosion yn yr holl wasanaethau'n parhau ac mae clinigau rhithiol yn cael eu defnyddio lle bo'n bosibl. Bu lleihad sefydlog mewn amseroedd aros i gleifion newydd yn y rhan fwyaf o wasanaethau therapi yn ystod chwarter 3 a 4, ac eithrio lle y gwnaeth ail don Covid-19 effeithio'n negyddol ar gynnydd. Fel yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'r holl restrau aros wedi cael eu

dilysu trwy gydol chwarter 3 pan ailddechreuodd wasanaethau rheolaidd i gleifion allanol.

Oncoleg a Haematoleg

Fel gwasanaethau hanfodol, mae Haematoleg ac Oncoleg wedi parhau i drin cleifion yn unol ag arweiniad y Coleg Brenhinol ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a PBC. Mae blaenoriaethu clinigol o ran achosion ar waith, fel y mae'r defnydd o glinigau rhithiol. Mae'n debygol y bydd Oncoleg yn dechrau gweld cynnydd yn y galw oherwydd lleihad o ran cyfeiriadau brys gan feddygon teulu am ganser tybiedig yn ystod misoedd cyntaf y pandemig, ynghyd â gohirio sgrinio a rhai gwasanaethau diagnostig. Disgwylir i gleifion ddod atom gydag afiechyd mwy datblygedig ac mae'r gwasanaethau'n dyfeisio cynlluniau i wella capasiti os bydd angen.

Endosgopi

Mae cleifion brys a chleifion canser tybiedig yn cael eu blaenoriaethu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a PBC, ond mae amseroedd aros yn hwy oherwydd lleihad mewn capasiti oherwydd y cyfyngiadau rheoli heintiau a phrinder staff y cyfeiriwyd ato’n gynharach. Caiff yr holl gyfeiriadau endosgopi eu brysbennu a'u dilysu er mwyn sicrhau bod llwybrau amgen yn cael eu hystyried, fel delweddu neu ddiagnosteg bellach er mwyn sicrhau mai dim ond cleifion sy'n bodloni canllawiau cenedlaethol sy'n cael eu rhestru ar gyfer endosgopi. Mae llwybr profi FIT sydd ar y gweill i helpu i ganfod haenau risg o ran y cleifion mwyaf brys. Nod y capasiti ffynonellau mewnol ychwanegol hwn yw lleihau arosiadau cyn gynted â phosibl.

Radioleg, Niwroffisioleg ac Awdioleg

Bydd y capasiti ychwanegol a roddwyd ar waith i ddelio â'r galw uwch yn cynorthwyo blaenoriaethu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19 er mwyn targedu lleihad mewn amseroedd aros.

3. **Sut fyddwch yn cyfathrebu â chleifion ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl o ran hyd arhosiad, blaenoriaethu, ac unrhyw ddulliau i reoli eu cyflwr tra byddant yn aros?**

Gofal wedi'i Gynllunio

Mae cynllun peilot ar y gweill ar hyn o bryd, lle bydd y Bwrdd Iechyd yn cysylltu â'r cleifion sydd â'r arhosiad hiraf, er mwyn deall eu statws. Os bydd yn llwyddiannus, y bwriad yw parhau â'r ymagwedd hon ar gyfer y rhan fwyaf o'r cleifion sy'n aros. Caiff rhaglenni fel "dianc rhag poen" eu defnyddio i helpu cleifion i reoli eu cyflwr, ac mae gweithgarwch grwpiau cleifion allanol a chymwysiadau digidol yn cael eu datblygu i gynorthwyo'r rheiny sy'n aros am driniaeth. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd wedi'i datblygu ymhellach, a bydd yn darparu gwybodaeth am amseroedd aros disgwyliedig ar lefel arbenigedd.

Arbenigeddau Meddygol

Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cael ei diweddaru gyda'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny a ddarperir ar hyn o bryd ac rydym yn annog cleifion i aros yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf trwy'r llwybr hwn a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) hefyd yn cael ei ddefnyddio. Fel rhan o broses brysbennu cyfeiriadau, caiff cyngor ar ddulliau hunanreoli i gleifion ei roi trwy feddygon teulu, lle bo claf y tu allan i gategori brys a chanser.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Yn ogystal â diweddariadau i wefan y Bwrdd Iechyd, caiff gwybodaeth am gyfeirio i ymarferwyr a theuluoedd yn ymwneud â gwasanaethau CAMHS a Niwroddatblygiad ei chyfleu trwy system un pwynt mynediad. Mae pob gwasanaeth hefyd yn ysgrifennu at deuluoedd er mwyn rhoi gwybod iddynt am y pwysau presennol ar wasanaethau, diwygio darpariaeth gwasanaethau a hefyd i gynnig cyngor ar sut i fanteisio ar ofal a chymorth. Mae offer hunangymorth ar gael.
.

Therapïau

Er nad yw Therapïau fel mater o drefn yn cyfathrebu â chleifion ynghylch yr uchod, cynghorir cleifion i gysylltu â'r gwasanaeth os bydd eu sefyllfa'n newid neu os byddant am holi ynghylch eu hamser aros.

Oncoleg a Haematoleg

Er bod y drefn arferol yn parhau i bob pwrpas ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae cyfathrebu rheolaidd â Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru a darperir y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer eu gwefan.

Endosgopi

Caiff diweddariadau eu rhoi ar wefan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r hyn y mae'r Gwasanaeth Endosgopi yn ei gynnig ar hyn o bryd i gleifion canser ac achosion brys eraill. Cynghorir cleifion i gysylltu â'r ysbyty neu eu meddyg teulu os bydd eu cyflwr yn newid. Rhoddir cyngor hunanreoli trwy feddygon teulu i gleifion sy'n cael eu brysbennu fel rhai nad ydynt yn frys.

Radioleg, Niwroffisioleg ac Awdioleg

Caiff gwybodaeth am hyd arhosiad a gwybodaeth gysylltiedig arall ei chyfleu i gleifion trwy lythyr yn bennaf, neu mewn ymateb i unigolion sy'n cysylltu trwy PALS, switsfwrdd neu gysylltiadau gyda meddygon teulu.

4. **Pa amcangyfrifon neu ragamcaniadau a ydych wedi'u gwneud o ran yr amser sydd ei angen i ddychwelyd at y sefyllfa fel yr oedd cyn y pandemig?**

Gofal wedi'i Gynllunio

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymarfer rhagamcaniadau fesul arbenigedd ar hyn o bryd a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn dechrau mis Mawrth. Yr amcangyfrif presennol yw 2-3 blynedd, ac ym maes orthopaedig y mae'r adferiad hiraf.

Arbenigeddau Meddygol

Mae gwaith ar y gweill gyda chydweithwyr Gwybodeg ar y cynllun capasiti ar gyfer 2021-22. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u seilio ar y ddarpariaeth bresennol ar gyfer Covid-19 ar gyfer chwarter 1 a chwarter 2, o leiaf. Mae monitro'n parhau i asesu'r adeg briodol i wella capasiti er mwyn dychwelyd at lefelau cyn Covid-19. Mae'r union derfyn amser yn hyn o beth yn anhysbys ar hyn o bryd.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae cynllunio capasiti'n parhau yn yr holl wasanaethau er mwyn gwneud rhagamcaniadau. Mae Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant i ategu modelau capasiti a galw ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiad ar draws Gogledd Cymru. Bydd angen capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau niwroddatblygiad er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad ac i ddychwelyd at y sefyllfa cyn y pandemig. Mae capasiti presennol y tîm yn ateb y galw presennol, ond nid y pwysau ychwanegol sy'n deillio o'r ôl-groniad o 472 o achosion.

Mae cynllunio capasiti paediatreg lem ar y gweill er mwyn lleihau amseroedd aros i'r sefyllfa fel yr oedd cyn y pandemig o 12 - 18 wythnos. Mae rhywfaint o wella wedi'i weld yn ddiweddar o ran y niferoedd sy'n aros dros 26 wythnos.

Therapïau

Caiff ymarfer capasiti a galw ei gynnal er mwyn canfod y capasiti ychwanegol y bydd ei angen i ategu lleihad fel bo modd dychwelyd at y sefyllfa fel yr oedd cyn y pandemig ac i glirio'r ôl-groniad. Mae'r ymarfer capasiti hwn yn gofyn am eglurder ar gynlluniau gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau therapi, fel orthopaedeg. Mae rhagamcaniadau lefel uchel yn dangos gyda rhywfaint o gapasiti ychwanegol, y bydd yn bosibl dychwelyd i lefelau fel yr oeddent cyn y pandemig cyn diwedd 2021-22.

Endosgopi

Mae ymarfer modelu manwl wedi'i gynnal, lle mae effaith defnyddio ffynonellau mewnol wedi'i hamcangyfrif, o gymryd y bydd Covid-19 yn parhau am gryn amser. Mae achos busnes yn cael ei baratoi i ategu recriwtio staff parhaol i gynnal gwasanaeth mwy cynaliadwy, gyda chapasiti sydd wedi'i alinio â'r galw.

Bydd angen i ffynonellau mewnol barhau i gynnal y gwasanaeth endosgopi hyd at 2021/22 tra bydd recriwtio ar y gweill. Rhagwelir, ar yr amod bod modd cytuno ar achos busnes a'r ffynonellau mewnol a ddefnyddir, y bydd yr amser aros yn addasu i fodloni amseroedd aros cenedlaethol erbyn Hydref 2021.

Radioleg, Niwroffisioleg ac Awdioleg

Mae amcangyfrifon yn awgrymu y bydd yn cymryd blwyddyn i ddychwelyd at amseroedd aros arferol ar draws y gwasanaethau hyn.

5. **A ydych yn defnyddio unrhyw ymagweddau newydd neu wahanol tuag at roi gofal neu'n ystyried eu defnyddio er mwyn helpu i leihau amseroedd aros, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd, llwybrau gofal newydd, neu gapasiti mewn meysydd eraill?**

Gofal wedi'i Gynllunio

Mae triniaethau amgen nad ydynt yn rhai llawfeddygol yn cael eu datblygu mewn arbenigeddau penodol, fel rhaglen Dianc rhag Poen y cyfeiriwyd ati gynt, trwy gynnwys gwasanaethau therapi fwyfwy. Mae cymwysiadau digidol hefyd yn cael eu hystyried ym maes Orthopaedeg er mwyn ategu triniaeth amgen neu i'w chynnig. Yn y tymor hwy, mae achos amlinellol strategol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, i gyflwyno ymagwedd canolfan diagnostig a thriniaeth (DTC).

Arbenigeddau Meddygol

Mae gwaith ar y gweill i ddilysu'r rhestr aros ddilynol (ac eithrio Endosgopi) gyda'r nod o leihau 100% o arosiadau sy'n hwyr i'r targed o 35% a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targed hwn wedi'i gyflawni ym maes Gofal yr Henoed a Rhiwmatoleg, ac mae Dermatoleg yn lleihau bob wythnos. Mae arosiadau endosgopi'n cynyddu ar hyn o bryd oherwydd pwysau gwasanaeth ac absenoldeb salwch hirdymor ymhlith meddygon ymgynghorol.

Mae amheuaeth o sepsis (SOS) a gofal dilynol wedi'i gymell gan gleifion (PIFU) wedi'u cyflwyno ar draws arbenigeddau meddygol i gynnal lleihad yn y rhestr aros dilynol.

Mae trosglwyddo gofal cleifion wedi'i gwblhau rhwng safleoedd llym ac ysbytai cymunedol er mwyn defnyddio capasiti'n well ar draws y system, fel trosglwyddo cleifion Rhiwmatoleg brys o Ysbyty Maelor Wrecsam i glinig Ysbyty Cymuned Treffynnon.

Mae defnyddio ymgynghoriadau fideo 'Attend Anywhere' wedi'i dreialu ac mae defnyddio codau blaenoriaethu 'P' wedi'u rhoi ar waith ar gyfer mân weithredoedd Dermatoleg i gleifion allanol. Mae clinigau dros y ffôn wedi'u cyflwyno ar draws ystod o arbenigeddau ac maent yn gweithio'n dda, ar y cyfan.

Fel y soniwyd yn gynharach, mae ymagweddau gwahanol wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â materion capasiti, fel trosi meddygon gradd staff i Gymdeithion Meddygol, ac uwchraddio sgiliau nyrsys lefel uchel iawn er mwyn eu galluogi i ymgymryd â lefel uwch o waith clinigol i gefnogi'r tîm o feddygon ymgynghorol. Mae Arweinydd Clinigol Rhiwmatoleg wedi'i benodi, a bydd y rôl hon yn ategu ymagwedd 'unwaith i PBC'.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae Gwasanaethau CYP wedi rhoi 'Attend Anywhere' a chlinigau dros y ffôn ar waith. Mae wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig o ran cleifion dilynol. Mae'r adborth cychwynnol gan deuluoedd ar y newid hwn i ymarfer wedi bod yn bositif. Mae defnyddio llwyfannau rhithiol ar gyfer ymgynghoriadau'n fwyfwy derbyniol ac yn ogystal ag ategu rheoli rhestrau aros, mae'n cael rhywfaint o effaith o ran lleihau amseroedd teithio a gwneud defnydd mwy effeithlon o amser clinigwyr. Mae rhyngweithiadau wyneb yn wyneb yn dal i gael eu darparu mewn ffordd sy'n ddiogel rhag Covid-19, lle bo angen.

Wrth fynd ar drywydd dilysu rhestrau aros, yn enwedig ym maes paediatreg gymunedol a CAMHS, mae llwybrau gofal amgen yn cael eu hystyried, gan gynnwys y trydydd sector fel bo'n briodol.

Therapïau

Mae technolegau newydd wedi'u rhoi ar waith mewn gwasanaethau therapi. Mae Technoleg Ddigidol wedi caniatáu i Therapïau gynnig ymgynghoriadau dros y ffôn a fideo rhwng Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a'u defnyddwyr gwasanaeth.

Mae llwybrau gofal newydd yn cael eu datblygu i sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaeth gorau, fel datblygu llwybrau deietegol ar y cyd â thimau maeth a fferylliaeth er mwyn sicrhau bod cleifion yr effeithir arnynt gan Covid-19 yn derbyn y cymorth maethol sydd ei angen arnynt.

Oncoleg a Haematoleg

Mae clinigau dros y ffôn yn cael eu defnyddio ac maent yn gweithio'n dda.

Endosgopi

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae cyflwyno profion FIT wedi caniatáu pennu haenau risg o ran cleifion a lle bo'n briodol, eu gosod ar lwybrau triniaeth gwahanol, ar wahân i endosgopi, gan leihau'r galw am endosgopi a gwella profiad cleifion.

Radioleg, Niwroffisioleg ac Awdioleg

Mae clinigau rhithiol dros y ffôn yn cael eu defnyddio ac ym maes Radioleg, mae'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol bellach yn gallu gweithio o'r cartref gyda gweithfannau pwrpasol.

6. **Pa ffactorau a allai effeithio ar eich cynlluniau i fynd i'r afael ag amseroedd aros (e.e ymchwydd pellach mewn cyfraddau COVID-19, problemau gyda'r gweithlu neu gapasiti ffisegol), a pha gynlluniau sydd gennych ar waith i'w rheoli?**

Gofal wedi'i Gynllunio

Mae llawer o ffactorau a fydd yn effeithio ar gynlluniau - yn bennaf mannau dwysáu mewn theatrau ac unedau adfer. Bydd adleoli staff a'r gallu i symud cydweithwyr yn ôl cyn gynted ag y bydd y pandemig yn caniatáu hynny, yn bwysig er mwyn dychwelyd at ffyrdd arferol o weithio. Hefyd, bydd syrffed staff yn dilyn y pandemig, a'r angen i gymryd gwyliau blynyddol yn cael effaith. Bydd darparu gwasanaethau hanfodol a mynd i'r afael ag ôl-groniadau yn gofyn am gapasiti pellach yn y tymor byr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried caffael tair ward theatr a modiwlaidd arall, wedi'u staffio gan fodel cymysg gan ddefnyddio ffynonellau mewnol i ddarparu'r capasiti ychwanegol. Mae modelu capasiti'n parhau.

Arbenigeddau Meddygol

Mae cynlluniau capasiti ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau sy'n cynnwys y tebygolrwydd y bydd y gweithlu clinigol a gweithredol yn parhau i fod yr un fath, y bydd ôl-troed ffisegol Adrannau Cleifion Allanol a chymorth i nyrsys yn aros fel y mae ac y bydd y clinigau sy'n cael eu cynnal yn parhau gyda'u capasiti presennol. Bydd unrhyw newidiadau i'r newidynnau hyn yn effeithio ar y capasiti y gallwn ei gynnig. Gallai unrhyw ymchwydd pellach mewn achosion Covid-19 effeithio ar y gweithlu clinigol. Bydd cynlluniau i benodi i rolau penodol a swyddi gwag meddygon locwm yn helpu i reoli amseroedd aros.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae nifer fawr o swyddi gwag o ran rhai elfennau o'r gwasanaeth yn effeithio ar amseroedd aros, ond mae recriwtio staff i'r swyddi gwag presennol hyn yn dechrau gwella. Mae cynlluniau capasiti ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, felly bydd unrhyw newidiadau i'r newidynnau'n effeithio ar y gallu i ddarparu. Gallai unrhyw ymchwydd pellach mewn achosion Covid-19 effeithio ar y gweithlu clinigol ac ôl-troed ffisegol gwasanaethau plant. Mae cynllunio ar gyfer ymchwydd ar y gweill ac mae trafodaethau'n parhau am adleoli'r gwasanaethau presennol er mwyn sicrhau bod modd parhau â chapasiti clinigol ar gyfer gwasanaethau hanfodol.

Therapïau

Bydd gofynion gwahanol yn effeithio ar wasanaethau therapi gwahanol.

• Bydd yr holl wasanaethau'n teimlo effaith ymbellhau cymdeithasol ar eu capasiti am glinigau ffisegol. Mae rhai gwasanaethau wedi'u heffeithio i raddau mwy gan gyfraddau Covid-19 yn y gymuned ac yn yr ysbytai llym, er enghraifft, mae mwy o alw am gymorth ffisiotherapi yn y lleoliad llym sydd wedi arwain at symud staff o leoliadau cleifion allanol i ateb y galw hwn.

• Mae rhai staff yn cysgodi; mae'r aelodau hyn o staff yn parhau i weithio o'r cartref ac maent yn allweddol i barhau i gynnig ymgynghoriadau fideo a thros y ffôn.

• Byddwn yn parhau i geisio cyflogi staff locwm lle bo cymeradwyaeth ariannol ar waith.

• Mae'r holl arweinwyr gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i recriwtio staff i unrhyw swyddi gwag ac mae pob un ynghlwm wrth y broses symleiddio a ddylai sicrhau bod graddedigion newydd ar gael ar gyfer swyddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

• Mae ymbellhau cymdeithasol a chyfyngiadau wedi effeithio ar gapasiti ffisegol; nid oes unrhyw leoliad ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn Wrecsam ar hyn o bryd. Mae achos busnes wedi'i ddatblygu i ddod o hyd i ddatrysiad amgen.

• Mae rotas yn cael eu haddasu gymaint â phosibl ac mae rhai staff yn gweithio diwrnodau a phenwythnosau hirach. Lle bo ymbellhau cymdeithasol yn broblem, mae mynediad i fannau swyddfa wedi'i arwahanu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

• Mae'r holl wasanaethau'n hyblyg er mwyn sicrhau bod capasiti yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl - lle bo modd i wasanaethau barhau, maent yn gwneud hynny, lle bo gwasanaethau wedi lleihau, mae'r arweinwyr gwasanaeth yn monitro'r gofynion sy'n gwrthdaro'n ofalus a byddant yn adleoli staff fel bo'n briodol.

Oncoleg a Haematoleg

Mae cynlluniau capasiti ar gyfer 2021-22 yn cymryd y bydd nifer o ragdybiaethau'n parhau i fod yr un fath, ond mae pryderon y bydd mwy o gleifion yn dod atom gydag afiechyd mwy datblygedig ac y gallai hyn olygu bod angen capasiti ychwanegol ym maes Oncoleg, fel yr esboniwyd yn gynharach. Bydd newidiadau i newidynnau y mae rhagdybiaethau cynllunio wedi'u seilio arnynt yn effeithio ar y gallu i ddarparu. Bydd unrhyw ymchwydd pellach mewn achosion Covid-19 yn cael effaith negyddol, yn anochel.

Yn yr un modd â gwasanaethau eraill, bydd Oncoleg a Haematoleg yn teimlo effaith ymbellhau cymdeithasol ar eu capasiti ffisegol am glinigau. Mae rhai staff yn cysgodi ac yn parhau i weithio o'r cartref, ac maent yn allweddol i barhau i gynnig ymgynghoriadau fideo a thros y ffôn.

Mae recriwtio rhagweithiol ar y gweill lle bo swyddi gwag ac mae ymgysylltu â'r broses symleiddio a ddylai sicrhau bod graddedigion newydd ar gael ar gyfer swyddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae rotas yn cael eu haddasu gymaint â phosibl ac mae'r holl wasanaethau'n hyblyg

Endosgopi

Mae effaith barhaus y pandemig yn arwain at leihad mewn capasiti gan fod staff wedi cael eu hadleoli a chan fod llai o gynhyrchiant. Mae'r cwmnïau ffynonellau mewnol y cyfeiriwyd atynt gynt wedi wynebu rhai problemau o ran staffio eu rhestrau

triniaeth i gleifion oherwydd argaeledd y gweithlu. Mae problemau o'r fath yn effeithio'n anochel ar amseroedd aros.

Radioleg, Niwroffisioleg ac Awdioleg

Mae diffyg mannau ffisegol oherwydd cyfyngiadau Covid-19 yn broblem sylweddol o ran mynd i'r afael â rhestrau aros. Byddai ymchwydd pellach yn hydref/gaeaf 2021 yn heriol a byddai'n debygol o effeithio ar gynlluniau i glirio'r ôl-groniad.

7. **Pa wybodaeth a ydych wedi'i derbyn am eich dyraniad o'r £30m o gyllid ychwanegol ar gyfer amseroedd aros, a sut ydych yn bwriadu defnyddio'r cyllid?**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cadarnhad o'i ddyraniad £4.9m ar gyfer blaenoriaethau gofal brys ac argyfwng, sydd wedi creu darpariaeth ar gyfer pedwar maes penodol: - Gwella darpariaeth Gofal Brys, Gofal Brys ar yr un Diwrnod, Braenaru Gofal Cychwynnol Brys a Rhyddhau at Adferiad ac Asesu.

Casgliad

Y gobaith yw bod yr ymatebion a roddwyd o gymorth i'r Pwyllgor o ran amgyffred y sefyllfa bresennol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwbl ymrwymedig i fynd i'r afael â'i amseroedd aros, er budd y cleifion y mae'n eu gwasanaethu. Gwneir defnydd helaeth o ffyrdd newydd o weithio a'r cyllid ychwanegol a dderbynnir, fel rhan o ymdrechion ar y cyd i ddychwelyd at y sefyllfa fel yr oedd cyn y pandemig.

HYWEL DDA UNIVERSITY HEALTH BOARD'S WRITTEN EVIDENCE to the HEALTH, SOCIAL CARE & SPORT COMMITTEE

Date of Submission: 16 February 2021

1. Hywel Dda University Health Board (the Health Board) welcomes the opportunity to contribute to the Health, Social Care and Sport Committee's inquiry into the impact of COVID-19 on services.

2. The Health Board is submitting this written evidence in advance of its attendance at the Committee meeting on 24 February 2021.

3. Steve Moore (Chief Executive) and Andrew Caruthers (Chief Operating Officer) will attend the meeting (virtually) to respond to the Committee's questions.

About the Organisation

4. The Health Board is responsible for the health and well-being of its resident population and plans, provides and oversees delivery of NHS healthcare services for people in Carmarthenshire, Ceredigion, Pembrokeshire and its bordering counties. Our 11,000 members of staff provide primary, community, in-hospital, mental health and learning disabilities services for around 384,000 people across a quarter of the landmass of Wales. We do this in partnership with our three local authorities and public, private and third sector colleagues, including our volunteers.

An overview on our response to the COVID-19 PANDEMIC

5. The Health Board provided the Committee with an overview of its response to the COVID-19 pandemic at a Committee meeting held on 10 July 2020; this evidence provides an update and addresses the questions raised by the Committee.

What are the main areas of pressure, and what plans do you have in place to deal with these?

6. As the COVID-19 pandemic has progressed from the first wave during the spring and early summer of 2020 through to the rise of the second wave during the later autumn and winter period of 2021, rising COVID-19 infections and seasonal emergency pressures have resulted in increasing pressure on our local health and social care capacity, characterised by:
   - Increasing volumes of emergency COVID and non-COVID patient demand, including increased winter demand; and critical care pressures
   - The significant impact and continuing legacy of COVID-19 nosocomial transmission rates on acute and community hospital capacity
   - Severe deficits in available nurse staffing resources due to the combined impact of vacancies and COVID related absence
   - Significant reduction in care home and other community based service capacity with a resultant adverse impact on discharge pathways

- The unavoidable impact of national guidance regarding safe discharge of patients to care homes during the pandemic period which, whilst helping to limit the spread of infection within care homes, has further limited discharge flow across the health and social care system
- Staff vacancies and COVID related absence (including shielding)
- Social distancing guidance (reduced physical capacity)

7. During periods of peak pressure, our acute hospital sites across Hywel Dda have consistently operated at the highest levels of emergency pressures escalation, with resultant lengthy delays in ambulance handover, emergency department waiting times and the volume of patients awaiting discharge. During December 2020 and early January 2021, our acute and community hospital sites treated the highest volume of inpatients with confirmed COVID-19 since the onset of the pandemic.

8. Continuing uncertainty regarding the impact of the new variant of concern (plus any other new variants that may emerge) and the anticipated easing of current restrictions through the remaining weeks of this year, poses significant challenges to accurate scenario planning, particularly beyond the summer. As the second wave of the pandemic has progressed, our modelling scenarios have deviated significantly from the original assumptions that underpinned our initial planning. Whilst community incidence and COVID related hospital admissions continue to show a downward trend since the introduction of the national lockdown measures, we also continue to experience a significant impact on extended length of stay (reflective of system-wide pressures across our community and care sector) and resultant bed occupancy levels, which are also impacted by periodic outbreaks across our hospital sites.

9. We are working locally on what an increase to the Rt level following a release of restrictions through February and March 2021 looks like ahead of the summer, and expect a continuing level of COVID demand that is in excess of the levels we saw during the first wave in Hywel Dda. Non-COVID demand currently appears to have stabilised at a level lower than we saw prior to the pandemic. However, when COVID demand is added, our overall emergency demand looks much like it would do normally. Therefore, we are expecting our overall emergency demand to continue at similar levels to what we saw pre COVID, with the key difference being the proportion of COVID to non-COVID activity within it.

10. Coupled with an assumption that for the remainder of the year ahead, social distancing measures must remain in place with subsequent impacts on useable capacity, our planned care recovery capacity assumptions for Q1/2 of 2021/22 therefore broadly reflect those set out in our previous 2020/21 Q3/4 plan. These anticipate the continuing challenges we expect to face in managing COVID and non-COVID related demands on our system in the months ahead, whilst endeavouring to protect 'Green' planned care pathways on each site, all against the backdrop of a significant and sustained staffing challenge.

11. During the pandemic, our service planning and response has been guided by Welsh Government (WG) guidance for the prioritisation of essential services: https://gov.wales/nhs-wales-COVID-19-operating-framework-quarter-2-2020-2021). More latterly during the peak of the second wave, the NHS Wales Health and Social Care Department Local Options Framework provided organisations with the flexibility and support to respond to increasing service pressures, by maximising the use and deployment of our workforce resources to support COVID and other essential emergency pathways.

How will you prioritise the delivery of non-COVID services to target reductions in waiting times?

Risk Stratification

12. Clinical teams continue to assess and prioritise all existing and new patients, taking into account length of wait and clinical urgency, including suitability for virtual or F2F appointments.

13. Our teams follow a risk stratification model, supported by NHS Wales and the Royal College of Surgeons, which categorises patients according to five levels of urgency:
    - 1a – Emergency (< 24 hrs)
    - 1b – Urgent (< 72 hrs)
    - 2 - < 28 days / 4 weeks
    - 3 - < 92 days / 3 months
    - 4 - > 183 days / 4 months

14. As reflected above, our planned care recovery capacity assumptions for Q1/2 of 2021/22 broadly reflect those set out in our previous 2020/21 Q3/4 plan. These anticipate the continuing challenges we expect to face in managing COVID and non-COVID related demands on our system in the months ahead whilst endeavouring to protect 'Green' planned care pathways on each site, all against the backdrop of a significant and sustained staffing challenge.

Recovery Planning – Q1/2 2021/22

15. Work to re-start elective surgery has been in train since June 2020. During the summer/ autumn period, significant progress was achieved in recovering cancer pathway surgical backlogs, which had developed earlier in the pandemic, reflecting our commitment to ensure patients most in need of treatment were able to access care in a timely way.

16. With the rise of the second wave during the later autumn and winter period, along with amalgamation of seasonal pressures, rising COVID-19 infections and necessary adjustments to working practices, our planned care response for urgent and cancer pathway patients was significantly restricted over the Christmas/New Year period. The pressures we experienced necessitated us applying the Welsh Government Local Options Framework of actions to prioritise resources for COVID and other essential emergency pathways.

17. Throughout the pandemic, we have temporarily secured additional local independent sector capacity, although access to this supplementary capacity has reduced following the cessation of the All Wales approach to commissioning of independent sector providers. Through our local negotiations, we have managed to retain around 40% of the facilities capacity to support our planned care activity.

18. Physical capacity and staff availability are the key determinants of our ability to deliver safe, sustainable, accessible and kind elective care. In assessing our four acute sites, it is evident that it is not practical for the Health Board to provide a protected 'Green' Site in the short-medium term, as we face significant geographical challenges in rebalancing emergency flows, and limitations in our ability to provide supporting site-specific critical care capacity.

19. Limits to staffing resource both in theatre and post operatively, was a challenge before COVID. The additional factors of providing separate staffing teams for Red and Green areas is an added challenge and has shaped the model of provision suggested on each site. It is evident that our realisable capacity in the short term will not match that available prior to March 2020.

20. The plans we have outlined do however reflect the maximum capacity we can achieve within the footprint of our existing hospital sites, particularly during the first half of 2021.

Medium Term Recovery Plans

21. It is clear that in order to address the backlog on non-urgent cases that have developed through COVID, a different approach will be required. With this in mind, we are developing proposals for a modular solution at our Prince Phillip Hospital site, which is designed to further enhance our ability to provide protected 'Green' pathway capacity for planned care patients.

22. The proposed solution is for two Day Surgical Theatres (with Laminar Flow capability) and a Dual-Endoscopy Suite. The proposal, which is currently in draft stage and is unlikely to be operational before Q3 2021/22, would enable an approximate increase of up to 5,000 patients per annum beyond our current plans. The benefits are threefold:
    - All appropriate Orthopaedic day cases can be carried out in a dedicated DSU laminar flow theatre, ultimately freeing space in main theatres and Trauma and Orthopaedics ward to treat a greater number of inpatients. Demand in the facility can be utilised to create revenue for the Health Board and elevate the Orthopaedic department as a go to location in Wales.
    - Increased Endoscopy sessions will result in a higher number of patients treated within a facility fit for purpose.
    - The vacated departments within the main hospital site can be utilised for an array of opportunities; for example, a dedicated Urgent Suspected Cancer ward and/or a relocated Critical Care Unit.

23. The Business Case to implement these proposals is in development and will be discussed with Welsh Government in March 2021, as part of the Recovery Plan.

Regional solutions

24. As part of the Annual Plan for 2021/22, we are continuing to develop the key priority areas we will be looking to take forward with Swansea Bay University Health Board in particular. One priority area is our regional approach to cataract surgery.

25. Both Health Boards have historically had significant gaps between capacity and demand for cataract surgery, which was previously managed through high levels of outsourcing to private sector organisations using non-recurrent funding. The impact of severely reduced theatre activity during the COVID pandemic has worsened the position to the point where traditional solutions to lengthy and high volume waiting lists are insufficient and undesirable. Welsh Government has tasked all Health Boards to rapidly develop their recovery plans for cataracts.

26. The Ophthalmology departments of both organisations have over the past two or three years worked closely in several sub-specialty areas to develop a more regional approach, with a view to ensuring long-term sustainability for both populations. Key clinicians and management leads are committed to working collaboratively on solutions to resolving the cataract backlog and maximising the efficiency and productivity of the cataract services in both Health Boards.

27. We believe that the current circumstances lend themselves to the development of dedicated high-volume efficient cataract facilities serving both populations. The clinical and management teams intend to:
    - Undertake an assessment of current facilities and productivity and rapidly assess whether there is scope to significantly increase activity on each of these sites.

- Undertake an option appraisal of potential locations across both Health Boards for additional theatre(s) dedicated to the delivery of high-volume cataract lists.
- Develop a workforce plan to support the increased activity, which supports registered and non-registered staff working at the top of their license.
- Develop medium-term (recovery) and long-term (sustainability) capacity plans on a regional basis.

How will you communicate with patients about what they can expect in terms of length of wait, prioritisation, and any management of their condition whilst waiting?

Risk Stratification

28. Clinical teams continue to assess and prioritise all existing and new patients, taking into account length of wait and clinical urgency, including suitability for virtual or face-to-face appointments. Our teams follow a risk stratification model referred to in clause 13 above

Keeping in Touch with our Patients

29. During the pandemic and to date, we have adopted a number of approaches to achieve regular contact with our patients, these include:
    - Formal communication with long waiting orthopaedic, surgical and paediatric patients
    - Large scale validation of patients awaiting follow-up care
    - Digital updates via our intranet and social media
    - Ongoing roll-out of PROMS systems (patient-reported outcome measures) for orthopaedic patients
    - Four weekly review of patients on cancer pathways, by tumour site specific specialist nurses

Cancer Helpline

30. At the start of the pandemic, we established a telephone helpline for concerned cancer patients, staffed by the Oncology Clinical Nurse Specialist (CNS) Team to provide advice and support. A patient information leaflet for cancer patients, including helpline numbers, was developed and widely circulated. The helpline has been supplemented by a supporting communications strategy, including several social media video releases providing advice/information and any relevant links for patients. These included contributions from cancer patients currently undergoing treatment who shared their experiences during the pandemic. These activities have also been supported by our Macmillan GP Leads to encourage patients to attend their GP practice if they have any worrying symptoms.

Single Point of Contact (SPOC)

31. A Command Centre was set up as part of the COVID-19 response, to provide staff with a single point of contact, and has proven capable of receiving and responding to queries in a timely way through phone and email. Patients contacting the Health Board have multiple pathways to services, such as switch boards or direct service numbers with varying levels of call response due to the type of call handler. Switch boards are set up to transfer calls and not to provide information and advice.

32. Elective care waiting lists have been affected by COVID-19. There is currently no systematic process in place to contact, or receive calls from, patients who may be waiting and needing advice or assistance to prevent deterioration. However, the Planned Care Team has adopted a process for clinical risk assess of patients on waiting lists as guided by Welsh Government, using the recently developed risk stratification.

33. There are circa 30,000 patients on an elective waiting list. Those patients identified as high priority are clinically risk assessed with the expectation that those at high risk would be contacted directly by the responsible consultant team. Patients who have been booked and given a date for surgery whose treatment was then delayed due to the stepping down of elective pathways due to operational pressures from COVID, have been contacted directly by the responsible consultant team.

Argymhelliad 3) Byddem yn croesawu mwy o fanylion ynghylch sut y penderfynwyd ar 30 fel uchafswm. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r dystiolaeth wyddonol y mae'r rheol hon yn seiliedig arni. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa asesiad y mae wedi'i gynnal o'r effaith y bydd terfyn 30 person yn ei chael ar ailddechrau gweithgareddau chwaraeon, yn enwedig ar lawr gwlad.

[8] Paragraffau 17, 111, 112, 113
[9] Paragraff 112

Gwylwyr a chwaraeon gwylwyr

Mae cyfyngiadau COVID-19 ers dechrau'r pandemig yng Nghymru wedi gwahardd yr holl wylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau chwaraeon yn ffisegol. Heb os, mae effaith economaidd niweidiol ar chwaraeon gwahardd gwylwyr - a'r refeniw y maent yn dod ag ef - wedi bod yn ddwys.[10]

Pwysleisiodd Jonathan Ford o CBDC a Steve Phillips o URC bwysigrwydd sefydlu map ffyrdd clir i wylwyr ddychwelyd yn ddiogel i ddigwyddiadau chwaraeon (ar draws pob lefel o'r gêm). Esboniodd Mr Ford y canlynol:

> "It's having a little bit more clarity so that people can see that there's light at the end of the tunnel. At the moment, there's no light at the end of the spectator tunnel, and we would just like to have some assurances that there is a plan going to be put in place, and if things go according to plan, which we appreciate that everything changes, but if they go according to plan and the vaccination roll-out works and the numbers come down and we go down the scales, it will be increased. If people can understand that, they can start putting their business models back in place. At this moment in time, the business model is broken without match-day attendances and without the additional spend, and we just need to try and find that solution, otherwise people are looking back at me and I cannot be the bank, unfortunately; we only have so much money and we are looking at survival ourselves."

Esboniodd Jonathan Ford o CBDC fod cymysgedd o dimau proffesiynol a lled-broffesiynol sy'n chwarae yn uwch gynghrair Cymru yn golygu na all uwch gynghrair Cymru weithredu ar hyn o bryd. Ychwanegodd URC fod hyn yn wir hefyd ar gyfer uwch gynghrair rygbi Cymru.[11]

O ran Twrnamaint y Chwe Gwlad yn 2021, esboniodd Steve Phillips o URC y cynhelir y tri thwrnamaint (twrnameintiau'r menywod hŷn; y dynion hŷn; a'r un dan 20 oed) ar yr un pryd fel arfer, ond na fyddai hyn yn bosibl gyda'r protocolau coronafeirws ynghylch cyfleusterau, profion ac ati. Esboniodd Mr Phillips mai eu bwriad bellach oedd cynnal pob twrnamaint ar wahân ac yn ei dro.[12]

Mae'r sector cyfan i'w ganmol am y ffordd y mae wedi gweithio i sicrhau y bu modd cynnal rhai gweithgareddau chwaraeon, sydd weithiau'n cynnwys ebyrth personol gan y bobl sy'n cymryd rhan yn y chwaraeon eu hunain. Mae enghreifftiau nodedig o weithgareddau chwaraeon wedi cynnwys ailddechrau'r gynghrair bêl-droed broffesiynol a Chwpan Cenhedloedd yr Hydref yn ddiogel yn ddiweddar.

Nodwn fod cymysgedd o glybiau proffesiynol a lled-broffesiynol sy'n chwarae mewn cynghreiriau chwaraeon pwysig fel uwch gynghreiriau rygbi a phêl-droed Cymru yn golygu

[10] Paragraffau 66, 102, 158
[11] Paragraffau 95 ac 96
[12] Paragraff 143

bod y cynghreiriau hynny'n segur ar hyn o bryd. Mae hyn yn wahanol i'r nifer fach o glybiau pêl-droed proffesiynol sy'n chwarae yng nghynghrair bêl-droed Lloegr.

Pan aeth y Pwyllgor ati i ailedrych ar COVID-19 a chwaraeon, un o'r meysydd allweddol o ddiddordeb i ni oedd ailddechrau chwaraeon gwylwyr yn ddiogel. Yn ystod yr hydref, Cymru oedd yr unig wlad yn y DU i wahardd gwylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau chwaraeon mewn ffordd gyfyngedig. Mae'r ffaith bod sefyllfa iechyd y cyhoedd ar draws y DU wedi dirywio mor sylweddol yn y cyfamser yn brawf o'r gwaith anodd y mae Llywodraeth Cymru a'r sector wedi'i gael o ran ymateb i bandemig anrhagweladwy sy'n newid yn gyflym.

Argymhelliad 4) Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn am:

- ***yr amodau a fyddai'n galluogi treialu digwyddiadau chwaraeon gwylwyr diogel;***
- ***y berthynas rhwng y rhaglen frechu a gwylwyr yn dychwelyd i ddigwyddiadau chwaraeon;***
- ***manylion unrhyw ymgysylltiad y mae'n ei gael â chlybiau Cymru sy'n chwarae yng nghynghrair bêl-droed Lloegr i sicrhau syniadau cydgysylltiedig;***
- ***diweddariad ar yr amserlenni presennol y mae'n gweithio tuag atynt yn hynny o beth.***

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r penderfyniad i ohirio twrnamaint menywod y Chwe Gwlad yn 2021 ac mae'n disgwyl i bob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau y gellir cynnal y twrnamaint yn ddiweddarach eleni.

Cyllid

Mae cymorth ariannol i'r sector wedi bod yn hanfodol er mwyn dod drwy'r gwaethaf o'r pandemig. Amlinellodd Chwaraeon Cymru sut y dyrannwyd £22.7 miliwn mewn cyllid hyd yn hyn mewn ymateb i bandemig COVID-19.[13] Dywedodd Mr Davies y canlynol:

> "the Be Active Wales fund has been the primary source for community clubs et cetera to apply, but we've also supported governing bodies, and some governing bodies have also allocated some of that resource down to that level of their membership. We've allocated around about £2.2 million of the Be Active Wales fund, and that has all gone to community grass-roots organisations. I'd have to dig out the exact stats, but it's something like around about 900 supported applicants, who would all be different entities. Football has been a big beneficiary of that, but that's what you'd expect; there are far more football clubs than any other type of clubs at grass-roots level. So, around about £2.2 million has gone, through the Be Active Wales fund, and we've supported governing bodies, not only with protected funding they would have had annually, but

[13] Paragraff 51

also £2.5 million worth of additional funding for, primarily, grass-roots activity that they're responsible for."[14]

Ar yr un pryd, rhybuddiodd Victoria Ward o Gymdeithas Chwaraeon Cymru, er bod Chwaraeon Cymru wedi gwneud gwaith gwych o ran cael arian allan i gymunedau, fod y cyllid hyd yn hyn yn fach mewn termau cymharol ac na fyddai'n gwrthbwyso'r gostyngiad mewn incwm y mae'r sector yn ei wynebu.[15]

Yn yr un modd, dywedodd CBDC fod y cyllid drwy'r Gronfa Cymru Actif a'r Gronfa Gwydnwch Chwaraeon yn rhaff achub, ond rhybuddiodd y byddai angen mwy o arian i sicrhau y gall y clybiau pêl-droed (bron 1,000 ohonynt) oroesi. Tynnodd Mr Ford sylw hefyd at ffynonellau cyllid eraill roedd ei gamp wedi elwa arnynt, gan gynnwys FIFA a'r Loteri Genedlaethol.[16]

O ran yr effaith ar ymarferwyr unigol yn y sector, pwysleisiodd Marcus Kingwell o EMD UK y **bylchau mewn cymorth,** yn enwedig i'r rhai sy'n hunangyflogedig.

Ar 25 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr** gwerth £17.7 miliwn. Mae mwyafrif helaeth y Gronfa hon (£13.5 miliwn) wedi'i ddyrannu i Undeb Rygbi Cymru gyda'r tri phrif faes nesaf – pêl-droed, criced a rasio ceffylau – yn cael rhwng £1,000,000 a £1,500,000 yr un. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cyllid hwn "yn seiliedig ar y dybiaeth nad yw gwylwyr yn debygol o ddychwelyd mewn niferoedd sylweddol cyn yr haf".[17]

Mewn ymateb i'r pandemig hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu pecyn cymorth cyllid digynsail i'r sector ac mae'r Pwyllgor yn canmol y ffordd y mae'r sector wedi gweithio gyda'i gilydd i ddosbarthu'r cyllid hwn.

O ran cymorth i'r hunangyflogedig, clywsom am fylchau yn y cymorth a ddarperir ac, er gwaethaf taliadau £1,500 untro – y mae croeso mawr iddynt – o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon, mae'n amlwg bod pobl hunangyflogedig yn wynebu cyfnod hirfaith arall heb fynediad at incwm. At hynny, rydym yn deall y gall meini prawf gwahanol a gymhwysir i Gam 2 ei gwneud yn anoddach i rai pobl hunangyflogedig hawlio (***gweler gwybodaeth ychwanegol gan EMD UK***).

Argymhelliad 5) Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i bryderon EMD UK ynghylch Cam 2 o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon. Yn benodol, effeithiolrwydd trefniadau i gefnogi pobl hunangyflogedig yn y sector.

Rydym yn croesawu'r cyllid i gefnogi chwaraeon gwylwyr yng Nghymru ac yn cytuno, tra gwaherddir gwylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau, y dylai Llywodraeth Cymru barhau i'w cefnogi. Nodwn y dyrannwyd cyfran helaeth o'r cyllid hwn i Undeb Rygbi Cymru a byddem yn croesawu mwy o fanylion am y rhesymeg dros hyn.

[14] Paragraff 55

[15] Paragraff 59

[16] Paragraffau 157 - 158

[17] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, 29 Ionawr 2021

Argymhelliad 6) O ran y Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr, dylai Llywodraeth Cymru:

- ***roi mwy o fanylion am y rhesymeg y tu ôl i ddyrannu cyfran helaeth o'r Gronfa i rygbi'r undeb;***
- ***cadarnhau a yw'r cyllid hwn wedi'i ailddyrannu o wariant yn rhywle arall neu a yw'n arian newydd;***
- ***cadarnhau'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw gyllid ychwanegol a grybwyllir yn y datganiad ysgrifenedig ar 29 Ionawr 2021;***
- ***cadarnhau a oes amodau wedi'u hatodi i'r cyllid a ddarperir i gyrff llywodraethu, os felly, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff cyllid ei ddosbarthu'n deg ymhlith haenau a lefelau gwahanol o weithgarwch –*** yn enwedig y lefel llawr gwlad.

Clywsom bryderon o'r blaen ynghylch cynaliadwyedd ariannol ymddiriedolaethau hamdden o gofio'r gostyngiad estynedig mewn incwm y maent wedi'i wynebu. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o gynaliadwyedd ariannol ymddiriedolaethau hamdden, a pha gymorth ariannol sydd ar gael i helpu'r ymddiriedolaethau y mae arnynt ei angen i oroesi'r pandemig?

Adferiad ar ôl y pandemig i'r sector

Wrth edrych ymlaen at adferiad ar ôl y pandemig, cytunodd rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i gysoni polisi chwaraeon a gweithgarwch corfforol ag iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.[18]

Esboniodd Brian Davies fod Chwaraeon Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau ar adferiad COVID ar lefel uchel, ond yr hoffai ef a'r sector gael rôl fwy hanfodol ynddynt.[19] Yn benodol, rhybuddiodd Mr Davies fod cydnerthedd y sector yn y dyfodol yn gysylltiedig ac mai'r hyn nad ydynt am ei wneud yw canolbwyntio ar un peth yn fwy na'r llall, ac yn sicr nid rhywun elitaidd ar draul chwaraeon cymunedol.[20]

Roedd hon hefyd yn thema allweddol yn **ein hadroddiad blaenorol** pan wnaethom alw am fwy o gydweithrediad rhwng y sectorau iechyd a chwaraeon wrth gynllunio ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig.

Mae ail don y pandemig wedi golygu bod gwaith cynllunio ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig wedi'i ohirio am y tro. Fodd bynnag, mae datblygiadau calonogol ar y gorwel, gan gynnwys cyflwyno rhaglen frechu dorfol.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adferiad ar ôl y pandemig yn rhoi pwyslais cryf ar fuddion chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

---

[18] Paragraffau 182, 183, 184

[19] Paragraff 36

[20] Paragraff 44

Argymhelliad 7) Byddem yn croesawu diweddariad ar waith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig i gynnwys:

- ***manylion ar sut mae'n ymgysylltu â'r sectorau chwaraeon ac iechyd i sicrhau dull cydgysylltiedig o lunio polisïau;***
- ***goblygiadau cyflwyno rhaglen frechu dorfol ar gyfer amserlen adferiad COVID-19;***
- ***pa wersi y mae wedi'u dysgu o'r pandemig am fuddion iechyd ataliol gweithgarwch corfforol. A fydd y profiad hwn yn arwain at newid sylweddol yn y maes hwn ac, os felly, sut y caiff hyn ei gyflawni?***

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deisebau
—
Welsh Parliament
Petitions Committee

Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Chwefror 2021

Annwyl Dai

Deiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn trafod y ddeiseb uchod, yn ddiweddaraf yn ein cyfarfod ar 26 Ionawr.

Gwnaethom drafod gohebiaeth lle nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er nad yw'n orfodol i sefydliadau'r GIG ddilyn canllawiau clinigol a luniodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob sefydliad ystyried canllawiau perthnasol NICE. Hefyd, nododd y Gweinidog fod NICE ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar ac yn archwilio opsiynau i ystyried gweithredu canllawiau NICE yn fwy systematig fel rhan o'r broses arolygu.

Yn sgil hyn, gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i ofyn a yw'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi gwneud gwaith craffu ar weithredu canllawiau NICE yng Nghymru, neu a fyddai hwn yn faes y byddech yn ystyried argymell bod angen efallai i'ch pwyllgor olynol edrych arno eto yn y Chweched Senedd.

Hefyd, wrth ysgrifennu atoch, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar hyn o bryd.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=21491&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost uchod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDeisebau@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddPetitions@senedd.wales

0300 200 6565

Eitem 4.3

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

—

Welsh Parliament
Health, Social Care and Sport Committee

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

12 Chwefror 2021

Annwyl Janet

Deiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror ynghylch y ddeiseb uchod. Yn y llythyr hwnnw, roeddech yn ceisio gwybodaeth ynghylch a yw'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi gwneud unrhyw waith craffu ar weithredu canllawiau NICE yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r cwestiwn yn eich llythyr, gallaf gadarnhau bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ystyried canllawiau NICE lle bo hynny'n berthnasol yn ystod ein gwaith craffu, er enghraifft mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor ar **wasanaethau endosgopi** yn 2019, neu'r gwaith ar **strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia** yn 2017.

Yn ein hadroddiad etifeddiaeth, rydym yn disgwyl cynnwys amlinelliad o'r materion y bydd ein Pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd o bosibl yn dymuno eu hystyried. Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at awgrym y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â gweithredu canllawiau NICE yng Nghymru.

Diolch i chi am ymgysylltu'n gyson â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y materion trawsbynciol hyn.

Yn gywir,

Dr Dai Lloyd AS

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Eitem 4.4

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
—
Welsh Parliament
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Ionawr 2021

Annwyl Weinidogion

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher i drafod effaith COVID-19 ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl.

Yn anffodus, roedd nifer o faterion nad oeddem yn gallu ymdrin â hwy yn llawn yn yr amser a oedd ar gael, felly mae'r Aelodau wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch ynghylch y materion hyn. A allwch roi'r canlynol i ni:

1. Manylion unrhyw ymrwymiadau ariannol pellach dros y tyor hwy y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud i gefnogi'r sector, yn benodol i sicrhau bod cartrefi gofal yn parhau i fod yn hyfyw;

2. Gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella mynediad at ofal seibiant i ofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig;

3. Eich barn ynglŷn â'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chlywed gan randdeiliaid ynghylch pryderon y gallai'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl wedi 'ymdopi' gyda llai o wasanaethau gofal a chymorth ffurfiol yn ystod y pandemig gael ei ddehongli fel arwydd bod angen llai o ymyrraeth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol;

4. Manylion unrhyw fesurau pellach rydych chi'n eu hystyried i hwyluso ymweliadau â chartrefi gofal a sut y byddwch yn asesu effaith mesurau fel llogi podiau ar gyfer ymweliadau diogel;

5. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £250,000 wedi'i ychwanegu at y gronfa cymorth gofalwyr gwerth £1 miliwn. Fodd bynnag, gan fod hon yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a allech roi eglurhad o ba gymorth fydd ar gael ar ôl mis Mawrth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol;

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

6. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai gwasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc wedi gallu symud ar-lein yn ystod y pandemig a bod y cerdyn gofalwyr ifanc yn cael ei lansio. A yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i gefnogi gofalwyr ifanc neu roi seibiant iddynt, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu mynd i'r ysgol ar hyn o bryd;
7. Gwybodaeth am sut mae gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad ar ôl COVID-19 yn ystyried y goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol o ganlyiad i:
    - Oedi o ran cynnal asesiadau ac adolygiadau dementia yn ystod y pandemig; a
    - Anghenion a allai godi o ganlyniad i COVID hir.
8. Y diweddaraf ynglŷn â chyflenwadau cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Yn benodol, unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyflenwad priodol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol ar gael i ddiwallu anghenion ym maes gofal cymdeithasol o hyn allan.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn **15 Chwefror 2021** i helpu i lywio adroddiad y Pwyllgor ar y mater hwn.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Chwefror 2021

Annwyl Dai,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr. Yn unol â'ch cais, rydym wedi nodi isod ein hymateb i'r materion nad oeddem yn gallu ymdrin â nhw'n llawn yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor.

Manylion unrhyw ymrwymiadau ariannol pellach dros y tymor hwy y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud i gefnogi'r sector, yn benodol i sicrhau bod cartrefi gofal yn parhau i fod yn hyfyw.

Mae gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi iechyd a gofal cymdeithasol ar frig y blaenoriaethau ar gyfer cyllideb 2021-22. Awdurdodau lleol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb statudol dros ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i'r cyrff hyn drwy'r Grant Cynnal Refeniw; mae cyfanswm o £176m ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r setliad llywodraeth leol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22.

Y tu hwnt i'r buddsoddiad craidd hwn, mae gan Lywodraeth Cymru gyllidebau canolog i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a meysydd cysylltiedig. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £431 miliwn ychwanegol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2021-22.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Gronfa Gofal Integredig am flwyddyn arall gyda chyllideb refeniw o £89m yn 2021-22. Rheolir y Gronfa drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ynghyd i gyflenwi gwasanaethau ar sail anghenion dinasyddion.

Ac ystyried y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r sector o ganlyniad i'r pandemig mae'r grant Cynaliadwyedd y Gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei gynyddu o £40m i £50m yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn

adolygu’r meini prawf sydd ynghlwm wrth y cyllid hwn i sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi ein hamcanion strategol sy’n ymwneud â chynaliadwyedd y gweithlu.

Gwnaethom weithredu’n gyflym i roi’r cymorth ariannol angenrheidiol i Awdurdodau Lleol i’w galluogi i dalu am gostau ychwanegol darparu gofal yn ystod y pandemig drwy’r Gronfa Galedi, a thrwy ddefnyddio’r dull hwn rydym wedi darparu dros £88m i’r sector hyd yma. Yn ogystal â chefnogi costau staff ychwanegol a darpariaeth gyffredinol drwy godiad cyfradd safonol, roedd hyn hefyd yn cynnwys elfen i gefnogi Awdurdodau Lleol i ymateb i bwysau ar sefydlogrwydd y farchnad i ddarparwyr yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yn ystod y pandemig. Roeddem hefyd wedi darparu £22.4 miliwn cychwynnol i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol gyda gofal iechyd a chymorth ar gyfer gofal iechyd parhaus hyd at ddiwedd mis Medi 2020 ac, ers hynny, rydym wedi ymestyn y ddarpariaeth hon gyda £22.4m arall ar gael tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, mae’r Gronfa Galedi, a’r cymorth ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol, yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth ond rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am hyn gan bartneriaid yng nghyd-destun pandemig sy’n parhau.

Dywedodd y Gweinidog Cyllid yn y gyllideb ddrafft y byddwn yn adeiladu ar y nifer fach o ddyraniadau ar gyfer ymateb i Covid dros yr wythnosau nesaf ac yn y Gyllideb derfynol, unwaith y gallwn wneud asesiad gwell ynglŷn â’r ffordd orau o dargedu cyllid yn 2021-22. Yn benodol, ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi’r GIG a llywodraeth leol wrth iddynt chwarae rhan flaenllaw yn ein hymateb i’r pandemig.

Bydd yr angen am gefnogaeth barhaus ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phwysau eraill ar lywodraeth leol yn y cyd-destun hwnnw.

Manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella mynediad at ofal seibiant i ofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig.

Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu ystod o gymorth i ofalwyr di-dâl (gofalwyr) yn unol â’u dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael asesiad o anghenion gofalwyr. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn ogystal ag anghenion gofalwyr. Mae seibiant i ofalwr yn angen cymwys, ond rydym yn deall yr effaith y mae’r pandemig wedi’i chael ar ddarparu gwasanaethau cymorth lleol wyneb yn wyneb.

Rydym yn disgwyl i ddarpariaeth yn y gymuned ynghyd â mathau eraill o ddarpariaeth gael eu hail-agor cyn gynted â’i bod yn ddiogel gwneud hynny. Mae awdurdodau lleol a’r trydydd sector wedi bod yn hyblyg o ran datblygu ffyrdd eraill o gynnal cyswllt a darparu mathau o seibiant, fel galwadau ffôn cadw mewn cysylltiad a gweithgareddau ar-lein. Fe wnaethom roi £50k ychwanegol i Gofalwyr Cymru i gynnal eu sesiynau cymorth seicolegol MeTime ar-lein, ac mae’r rheiny wedi bod yn boblogaidd. Mae cymunedau a byrddau iechyd lleol hefyd wedi bod yn greadigol ac wedi datblygu dulliau gweithredu amgen; er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf maen nhw wedi defnyddio cyllid o’n dyraniad £1m i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf o Gronfa Gofalwyr y Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu’r Prosiect Cefnogi Gofalwyr. Mae wedi bod yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, gweithdai a digwyddiadau cymdeithasol er

mwyn helpu i fyw yn ogystal â gofalu, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyngor; dosbarthu pecynnau i atal diflastod; gweithgareddau ar-lein fel dosbarthiadau cadw'n heini; gweithdai ar bynciau fel rheoli gorbryder eich plentyn; bwyd a hwyliau gyda maethydd; a phethau hwyl fel rhith-nosweithiau tecawê.

Mae ein Cyllid Gofal Integredig hefyd yn darparu cymorth uniongyrchol i brosiectau sy'n galluogi gofalwyr i fanteisio ar gyfleoedd seibiant a helpu i wella llesiant y gofalwyr eu hunain. Yn 2020-21, roedd gwariant uniongyrchol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ofalwyr yn £8.9m. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynyddu yn 2021-22 gyda gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn parhau i fod yn grŵp blaenoriaeth o fewn y rhaglen ariannu. Mae'r Cyllid Gofal Integredig felly'n helpu i gyflawni'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr, gan gynnwys "Helpu i fyw yn ogystal â gofalu".

Gan edrych ymlaen at y darlun ehangach o sut mae gofalwyr yn dymuno cael cymorth seibiant priodol ac amserol, mae swyddogion wrthi'n dadansoddi mwy na 80 o ymatebion i'n hymgynghoriad cyhoeddus er mwyn datblygu cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Cafodd cwestiynau penodol am seibiant a gwyliau byr eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn ac enghreifftiau o arferion da. Mae ein Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr hefyd wedi bod yn trafod seibiant fel mater allweddol ar gyfer gofalwyr, a byddan nhw'n gweithio gyda ni i weld beth yw'r ffordd orau i sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddarparu seibiant a / neu wyliau byr, i ofalwyr o bob oed.

Eich barn ynglŷn â'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chlywed gan randdeiliaid ynghylch pryderon y gallai'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl wedi 'ymdopi' gyda llai o wasanaethau gofal a chymorth ffurfiol yn ystod y pandemig gael ei ddehongli fel arwydd bod angen llai o ymyrraeth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.

O ran y pecynnau gofal cymdeithasol sydd ar gael, hyd yma, yr wybodaeth rydym yn ei chael yw nad yw awdurdodau lleol a darparwyr yn lleihau pecynnau'n systematig. Fodd bynnag, mae'r mesurau diogelu ehangach sydd wedi bod yn angenrheidiol er mwyn cyfyngu ar drosglwyddo'r feirws wedi cael effaith ar sut mae pobl yn cael gafael ar ofal a chymorth. Rydyn ni'n gwybod bod rhai pobl yn dewis gwneud newidiadau eu hunain, oherwydd pryder ynghylch caniatáu i weithwyr gofal ddod i mewn i'w cartrefi a'r risg o haint yn gysylltiedig â hynny. Mae eraill wedi dewis manteisio ar allu teulu neu berthnasau sydd ar ffyrlo, sy'n gallu darparu'r gofal y mae ei angen o fewn y teulu.

Er gwaethaf yr heriau hyn, gwyddom fod unigolion, darparwyr gofal ac awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried a dod o hyd i atebion eraill er mwyn parhau i ddarparu gofal a chymorth. Os bydd unrhyw un sydd â chynllun gofal a chymorth yn credu bod ei les corfforol neu emosiynol wedi cael ei effeithio'n andwyol yn sgil gostyngiad neu newid yn y gwasanaethau a ddarperir, dylai gysylltu ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol i drafod hyn ac, os oes angen, i ofyn am adolygiad o'i gynllun gofal a chymorth.

O’r cychwyn cyntaf, mae ein disgwyliadau wedi bod yn glir. Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â’u gofynion statudol cyn hired a chyn belled ag y bo hynny’n bosibl. Dim ond os yw hyn yn hanfodol er mwyn cynnal y lefel uchaf bosibl o wasanaethau y dylid rhoi unrhyw newidiadau ar waith, a rhaid i unrhyw newidiadau fod yn rhai dros dro yn unig, yn rhai y gellir eu cyfiawnhau oherwydd amgylchiadau lleol na ellir eu hosgoi, a’u stopio ar y cyfle cyntaf posibl. Mae ein canllawiau statudol yn datgan: rhaid i ofal a / neu gefnogaeth unigolion ddychwelyd i’r trefniadau y cytunwyd arnynt cyn gynted ag y bo modd; ni ddylai’r cyfrifoldeb fod ar unigolion na’u teuluoedd/gofalwyr i sicrhau bod eu gofal a’u cefnogaeth yn cael eu hadfer; ac mae angen i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau a rhoi gwybod i’r rhai y bydd hyn yn effeithio arnynt ynglŷn â sut y caiff hyn ei wneud.

Manylion unrhyw fesurau pellach rydych chi'n eu hystyried i hwyluso ymweliadau â chartrefi gofal a sut y byddwch yn asesu effaith mesurau fel llogi podiau ar gyfer ymweliadau diogel.

Mae cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal wedi bod yn un o ganlyniadau anoddaf y pandemig hwn. Mae’r angen i gydbwyso hawliau pobl a chefnogi eu llesiant â’r awydd i amddiffyn pobl sy’n byw mewn cartrefi gofal rhag y risg o haint yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae amrywiolyn newydd y feirws yn ychwanegu at yr her honno ac rydym yn dal i geisio deall ei heffaith. Ein safbwynt ni yw bod yn rhaid i ni, gyda’n gilydd, wneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i weld eu hanwyliaid mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl. Byddwn yn parhau i adolygu’r sefyllfa a byddwn yn addasu ein cyngor a’n harweiniad os bydd angen.

Mae Cynllun Rheoli Coronafeirws Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau ar beth mae pob lefel rhybudd yn ei olygu ar gyfer ymweliadau â chartrefi gofal. Rydym wedi diweddaru ein canllawiau ymweld cenedlaethol manwl ar gyfer darparwyr cartrefi gofal (a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror), i’w gwneud yn gyson â’r lefelau rhybudd ac i roi manylion ychwanegol ynghylch defnyddio podiau ymwelwyr yn ddiogel. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i bawb – unigolion a’u teuluoedd, darparwyr ac awdurdodau lleol – nawr ac wrth i’r cyfyngiadau lacio.

Wrth ddatblygu ein canllawiau i ymwelwyr, buom yn gweithio’n agos iawn gyda’n grŵp ymwelwyr rhanddeiliaid sy’n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfeydd y Comisiynydd Pobl Hŷn a’r Comisiynydd Plant yn ogystal â chynrychiolwyr eraill o’r sector, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn gwerthuso effaith ein rhaglen beilot gwerth £3 miliwn ac rydym yn hapus â lefel y diddordeb a’r ymgysylltiad yn y cynllun hwn hyd yma. Erbyn hyn, rydym wedi dod o hyd i gyfanswm o 101 o bodiau i ymwelwyr drwy’r rhaglen ac mae 93 pod wedi’u gosod mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Mae’r rhaglen beilot yn cynnwys hyd at £1 miliwn sydd ar gael drwy’r gronfa galedi i gefnogi darparwyr sy’n dewis llogi eu podiau eu hunain ar gyfer ymwelwyr. Mae ceisiadau am gyllid yn cael eu hasesu fel y'u derbynnir.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £250,000 wedi'i ychwanegu at y gronfa cymorth gofalwyr gwerth £1 miliwn. Fodd bynnag, gan fod hon yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a allech roi eglurhad o ba gymorth fydd ar gael ar ôl mis Mawrth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol.

Un agwedd ar gymorth i ofalwyr di-dâl yw budd-daliadau lles, lle mae ganddynt hawl i'r rhain. Pan wnaethom sefydlu ein Cronfa Gynghori Sengl, roeddem yn mynnu bod darparwyr yn gwirio hawl i fudd-daliadau lles i bawb a oedd yn defnyddio eu gwasanaeth, waeth beth oedd eu problemau cyfredol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, roedd y canolfannau cyngor ynghylch budd-daliadau a gyflawnir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl wedi helpu pobl yng Nghymru i hawlio dros £34 miliwn o incwm ychwanegol drwy fudd-daliadau lles. Mae'r incwm ychwanegol hwn yn helpu i godi pobl allan o dlodi, i leddfu eu pwysau ariannol ac, yn bwysig iawn, i roi hwb i wariant mewn economïau lleol ledled Cymru.

Fodd bynnag, gwyddom fod angen gwneud mwy i gyrraedd y grwpiau hynny sy'n methu'n gyson â hawlio budd-daliadau lles, gan gynnwys gofalwyr. Felly, mae partneriaid Cyngor a Mynediad y Gronfa Gynghori Sengl yn cynnal cynlluniau peilot 'Profi a Dysgu' yn chwe ardal y Gronfa, ac yn darparu negeseuon wedi'u teilwra a chymorth i annog y grwpiau sy'n lleiaf tebygol o hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo i fanteisio ar hyn. Dechreuodd y cynlluniau peilot ym mis Hydref 2020 a byddant yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu. Yn ystod y 3 mis cyntaf, cyrhaeddodd y cynlluniau peilot 601 o bobl a'u cynghori ynghylch mwy na 1,600 o faterion yn ymwneud â'u hawl i fudd-daliadau lles a'u helpu i gael incwm ychwanegol o oddeutu £1m y flwyddyn. Bydd yr hyn a ddysgir o'r cynlluniau peilot yn cael ei rannu'n eang ddechrau mis Mai, ac yn helpu pobl o grwpiau allweddol, fel gofalwyr, i barhau i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.

Mae'r pwysau ariannol ar ofalwyr wedi cynyddu yn ystod y pandemig ac er bod grantiau bach i ofalwyr a theuluoedd unigol yn gallu rhoi rhywfaint o ryddhad i'r rheini sy'n gymwys, fel drwy'r Gronfa Gofalwyr, neu grantiau cymorth awdurdodau lleol, ein cyllid i gefnogi systemau a darparu gwasanaethau yw'r brif ffordd o gefnogi gofalwyr nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn parhau i ddarparu adnoddau sylweddol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae eu cymunedau'n dibynnu arnynt. Yn ogystal â'r Setliad, mae Cronfa Galedi Llywodraeth Leol yn dal ar gael i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r costau ychwanegol o ymateb i'r pandemig.

Mae cyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru i ofalwyr yn canolbwyntio ar ddarparu ychwanegoldeb i wasanaethau statudol, ac rydym yn darparu £2.6 miliwn dros dair blynedd (2020-23) i Gofalwyr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru, drwy ein Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer y Trydydd Sector. Nod y pedwar prosiect yw darparu ystod o gefnogaeth i ofalwyr o bob oed yn ogystal â gweithio gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr, a sut i gefnogi gofalwyr yn well. Hefyd, mae ein £1m o gyllid blynyddol i fyrddau iechyd lleol ar gyfer gofalwyr wedi cael ei ddefnyddio yn ystod

2020-21 i helpu gofalwyr sy’n cael trafferth gyda phwysau cynyddol y pandemig, ac rydym yn ystyried y cyllid hwn ar gyfer 2021-22 ar hyn o bryd. Yn olaf, fel y nodwyd uchod, mae gofalwyr yn parhau i elwa ar brosiectau o dan y Gronfa Gofal Integredig ac yn 2020-21 rydym wedi buddsoddi refeniw o £89m a chyfalaf o £35m yn y Gronfa honno. Gan adeiladu ar lwyddiant hyd yma, rydym yn buddsoddi yn y Gronfa Gofal Integredig am flwyddyn arall gyda chyllideb refeniw o £89m yn 2021-22.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai gwasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc wedi gallu symud ar-lein yn ystod y pandemig a bod y cerdyn gofalwyr ifanc yn cael ei lansio. A yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i gefnogi gofalwyr ifanc neu roi seibiant iddynt, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu mynd i’r ysgol ar hyn o bryd.

Nodwyd yr anghenion a’r materion sy’n effeithio ar ofalwyr ifanc, a gofynnwyd sawl cwestiwn ynghylch sut i wella cymorth a chefnogaeth i ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy’n ofalwyr, fel rhan o’n hymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben yn ddiweddar i ddatblygu cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys cynnig am bedwaredd flaenoriaeth genedlaethol newydd i ofalwyr a fyddai’n canolbwyntio ar ofalwyr mewn addysg a gofalwyr cyflogedig. Mae swyddogion wrthi'n dadansoddi’r ymatebion.

Fodd bynnag, ers dechrau’r pandemig, rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau gofalwyr cenedlaethol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, i ddeall sut yr effeithir ar ofalwyr ifanc. Roeddem yn falch o weithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac eraill i ddatblygu canllawiau ac adnoddau i helpu pob gofalwr i gael gafael ar feddyginiaeth ar gyfer y rheini maen nhw’n gofalu amdanynt. Hefyd, fel dysgwyr agored i niwed, mae gofalwyr ifanc yn dal yn gymwys i ddefnyddio lleoliadau dysgu ochr yn ochr â phlant gweithwyr allweddol. Hyd yn oed cyn y pandemig roeddem yn gwybod bod yr ysgol yn darparu math o seibiant o’r rôl ofalu i lawer o ofalwyr ifanc. Rydym yn parhau i’w hannog i gysylltu â’u hawdurdod lleol i drafod eu hanghenion fel dysgwyr agored i niwed, ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae gan ofalwyr ifanc hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr. Tra eu bod gartref, mae amrywiaeth eang o sefydliadau wedi darparu gweithgareddau i’w helpu i gael rhyw fath o seibiant. Mae ein cyllid £1m ar gyfer byrddau iechyd lleol a phartneriaethau gofalwyr wedi cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd gan y partneriaethau hyn i gefnogi prosiectau gofalwyr ifanc. Mae enghreifftiau’n cynnwys dosbarthiadau coginio ar-lein a danfon “pecynnau lles”.

Fodd bynnag, gwyddom fod angen ystod eang o fecanweithiau cymorth i helpu pob person ifanc, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn enwedig gydag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Yn 2020, gwnaethom gynhyrchu Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a gallant gael gafael ar gymorth drwy wasanaeth llinell gymorth CALL, a gwefan a llinell gymorth MEIC. Ar 1 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y bydd £9.4 miliwn ychwanegol ar gael yn benodol i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru, a bydd y cyllid ychwanegol yn cydnabod yr effaith y mae bod i ffwrdd o’r ysgol a rhwydweithiau cefnogi rheolaidd wedi’i chael ar bobl ifanc yn ystod y pandemig. https://gov.wales/pledge-support-youth-extra-ps94m-investment-children-and-young-people-mental-health-services

Gwybodaeth am sut mae gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad ar ôl COVID-19 yn ystyried y goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol o ganlyniad i:

- ***Oedi o ran cynnal asesiadau ac adolygiadau dementia yn ystod y pandemig; ac***
- ***Anghenion a allai godi o ganlyniad i COVID hir.***

Mewn perthynas ag Asesiadau Dementia, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi £10m i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu Dementia 2018-22 y flwyddyn nesaf, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn (dros £9m) yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Rydyn ni'n cydnabod y bydd y pandemig wedi effeithio ar wasanaethau ac felly, ar y cyd â'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, rydyn ni'n adolygu ein cynllun gweithredu presennol i ystyried pa gamau pellach sydd angen eu cymryd.

Hefyd, yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 rydym yn cynnig darparu hyd at £3m o arian ar gyfer gwella gwasanaethau er mwyn cefnogi gwasanaethau asesu'r cof a'r cymorth cofleidiol hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi wrth iddynt fynd drwy'r broses hon o gael eu hasesu a chael diagnosis.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i ddysgu mwy am COVID hir o ymchwil a phrofiadau pobl. Gwyddom fod pobl yn cael ystod o anawsterau tymor hir ac er bod pob person yn wahanol, mae'r rhain yn cynnwys blinder, diffyg anadl, poen a phroblemau cardiaidd, resbiradol, gwybyddol a niwrolegol. Rydym yn defnyddio dull mwy personol yng Nghymru i ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn oherwydd bod ystod mor eang o effeithiau yn gysylltiedig â COVID.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi datblygu canllawiau clinigol, a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2020: https://www.nice.org.uk/guidance/NG188.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â chanfod, asesu a rheoli effeithiau hirdymor COVID-19 ac mae'n defnyddio'r diffiniadau clinigol canlynol:

- **COVID-19 aciwt**: arwyddion a symptomau COVID-19 am hyd at bedair wythnos.
- **COVID-19 parhaus symptomatig**: arwyddion a symptomau COVID-19 am bedair i 12 wythnos.
- **Syndrom ôl-COVID-19**: arwyddion a symptomau sy'n datblygu yn ystod neu ar ôl haint sy'n gyson â COVID-19, ac yn para am fwy na 12 wythnos ac nad ydy diagnosis arall yn gallu eu hegluro.

Yn ogystal â'r diffiniadau o achosion clinigol, mae NICE yn cydnabod bod *'COVID hir'* yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio arwyddion a symptomau sy'n parhau neu'n datblygu ar ôl COVID-19 aciwt, hy mae'n cynnwys COVID-19 parhaus symptomatig a syndrom ôl-COVID-19.

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 20 Ionawr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau yng Nghymru i gefnogi pobl sy'n dioddef effeithiau tymor hirach COVID 19: https://gov.wales/written-statement-longer-term-effects-covid-19.

Hefyd, mae'r Grŵp Cyngor Technegol wedi cyhoeddi papur ar 3 Chwefror o'r enw '*Covid Hir – beth ydyn ni'n ei wybod a beth sydd angen i ni ei wybod*?' sy'n dwyn ynghyd dystiolaeth ac ymchwil diweddaraf y DU a rhyngwladol i gefnogi polisïau a gweithredu lleol: https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-covid-hir?_ga=2.155353787.1807395496.1612862720-2107173052.1588868234. Mae'r papur yn nodi rhagor o gwestiynau ymchwil pwysig i ddeall a monitro effaith COVID hir ar unigolion a gwasanaethau yng Nghymru, ac i ddatblygu llwybrau gofal effeithiol. Bydd angen adolygu'r rhain yn barhaus wrth i anghenion tystiolaeth gael eu diwallu drwy astudiaethau ymchwil parhaus ac yn y dyfodol, ac wrth i feysydd angen newydd ddod i'r amlwg.

Mae effaith yr effeithiau tymor hwy hyn yn effeithio ar bob claf a gwasanaeth ac mae'n ystyriaeth mewn cynlluniau adfer. Rydyn ni eisiau i bobl sydd â syndrom ôl-Covid allu cael mynediad at y rhan fwyaf o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw – boed hynny'n asesiadau, diagnosis, triniaeth ac adsefydlu – mor agos i gartref â phosibl neu drwy wasanaethau o bell, a dim ond yn gorfod teithio am wasanaethau mwy arbenigol, y mae'n rhaid eu darparu mewn ysbyty aciwt.

Mae adsefydlu yn elfen hanfodol o ofal i bobl sy'n gwella o COVID-19. Mae hefyd yn hanfodol i grwpiau o bobl y mae'r pandemig yn effeithio arnynt yn anuniongyrchol, gan gynnwys y rheini sydd â dementia. Mae hyn yn cynnwys pobl y cafodd eu gofal ei ohirio, y rheini a allai fod wedi gohirio gofyn am gyngor ynghylch problem iechyd, a'r rheini y mae'r cyfyngiadau symud wedi effeithio arnynt, fel y rheini sydd wedi cael eu hynysu neu wedi bod yn gwarchod.

Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a chydweithwyr wedi bod yn gweithio'n greadigol ac yn gyson i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n rheolaidd lle bo hynny'n bosibl drwy gadw mewn cysylltiad â'u cleifion heb anghenion brys, er mwyn rhoi cyngor i'w helpu i ymdopi. Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wedi rhoi llawer o bethau arloesol ar waith, fel cynnal sesiynau neu grwpiau adsefydlu ar-lein, defnyddio Attend Anywhere ar gyfer ymgynghoriadau, a darparu cymorth seicolegol drwy ymgynghoriadau fideo er mwyn darparu'r cyngor a'r gofal yn ddiogel pan nad ydynt yn gallu gweld pobl wyneb yn wyneb.

Y diweddaraf ynglŷn â chyflenwadau cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Yn benodol, unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyflenwad priodol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol ar gael i ddiwallu anghenion ym maes gofal cymdeithasol o hyn allan.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac rydym wedi datblygu cynllun strategol ar gyfer caffael cyfarpar diogelu personol. O ganlyniad i'r gwaith hwn mewn partneriaeth, rwy'n falch o gadarnhau bod ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol yn parhau i fod yn sefydlog. Cedwir y rhan fwyaf o'r eitemau a argymhellir mewn stoc sy'n ddigon i bara am gyfnod o 24 wythnos a bydd hynny'n wir am bob eitem erbyn diwedd y mis hwn.

Rydym hefyd wedi helpu i hwyluso cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu cyfarpar diogelu personol rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer parhau i gyflenwi 100% o'r cyfarpar diogelu personol a argymhellir ar gyfer gofal cymdeithasol, a fydd yn parhau i gael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth ar waith tan ddiwedd mis Awst 2021.

Rydym yn parhau i ddilyn y canllawiau Atal a Rheoli Heintiau mewn perthynas â defnyddio cyfarpar diogelu personol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol – mae'r canllawiau hyn yn cael eu defnyddio ledled y DU ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r data diweddaraf. Cafodd y canllawiau Atal a Rheoli Heintiau eu hystyried yn ddiweddar yng ngoleuni'r amrywiolyn newydd ac nid yw ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol wedi newid yn y canllawiau sydd newydd gael eu cyhoeddi. Bydd y canllawiau, ac o ganlyniad ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol, yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i ragor o dystiolaeth a data fod ar gael.

Gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i chi wrth baratoi adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon